

Goleuni mewn tywyllwch

“Myfi yw goleuni'r byd,” meddai. ‘Ni fydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd.’” (adn. 12)

Beth am ddarlenn Ioan 8:12–20 ac yna myfyrio

Yr un peth allweddol sydd angen ei feddiannu yn ystod y myfyrdodau hyn yw'r parodrydd i ganiatau i Dduw i'n harwain ar lwybr drwy ein poen ac yn hynny ei droi yn ddaionus ac yn dduwiol yn ei law ef ei hun. Yn ein dwylo ni, mae poen yn broblem; yn ei ddwylo ef, mae poen yn bosibilrwydd. Ar y diwrnod cyntaf, fe sylwyd fod poen sydd heb ei gyfeirio gan Dduw yn medru arwain at farwolaeth, ond pan mae Duw yn cyfeirio, gall arwain at fywyd. Mae pob digwyddiad yn ein dwyn i un o ddau gyfeiriad – tuag at farwolaeth neu tuag at fywyd. Yn ôl un, “Mae pethau cyffredin bywyd yn gallu ein gwneud ni yn gyffredin – neu yn Gristnogion.”

Un tro, gofynnodd gwraig gŵr busnes cyfoethog iawn yn yr Unol Daleithiau iddo edrych allan drwy'r ffenestr i weld gogoniant y machlud. Am eiliadau edrychodd ar y cochni yn yr awyr ac yna trodd at ei wraig gan ddweud, “O ie, hyfryd iawn. Mae'n fy atgoffa i ofyn i ti ddweud wrth y gogyddes fod angen i fy macwn gynnwys mwy o sain.” Mae'n debyg y gallwn wneud yr hyn sy'n ogoneddus yn gyffredin, neu'r hyn sy'n gyffredin yn ogoneddus. Mae'r cyfan yn dibynnu ar prun ai a ydym yn barod i'w ddwyn at Dduw, a dwyn Duw ei hunan i mewn i bopeth sy'n digwydd yn ein bywydau ac yn arbennig i mewn i'n poen. Yn achos y wraig a'r gŵr oedd yn edrych ar y machlud, roedd y machlud i'r wraig yn rhyfeddol, tra i'r gŵr 'doedd ond ffordd i'w atgoffa ef o bwysigrwydd pethau cwbl ymylol.

Yn y testun heddiw mae Iesu yn cyhoeddi mai ef yw goleuni'r byd. Ef oedd ac ef yw'r goleuni. Wrth inni wrando mwy a mwy ar theorïau gwahanol gyda golwg ar boen, rwyf yn dod i sylweddoli fwyfwy mai Iesu yw'r unig un sy'n taflu goleuni ar boen, ar gymylau ein profiadau ni. Mae'r gallu i ddefnyddio poen yn rhywbeth sy'n trawsnewid. Mae'r un sy'n abl i'n trawsnewid ni hefyd yn oleuni'r byd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Salm 4:1–8; Eff. 5:8–15

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae'r Salmydd yn gweddïo mewn cyfyngder?
2. Sut mae goleuni Crist yn llewyrchu arnom?

Gweddi

Arglwydd Iesu, ti oedd yr un a lefarodd geiriau goleuni pan oedd bywyd yn dywyll ac yn ddirgel. Caniatâ i mi fyw yn dy oleuni di a byw yn y goleuni pan mae'r cymylau yn hel o'm cwmipas. Amen.